Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil-datganiad-ar-wasanaethau-i-gwsmeriaid-chwynion-html** (https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil-datganiad-ar-wasanaethau-i-gwsmeriaid-chwynion-html) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint** (https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**POLISI A STRATEGAETH**

# Ystadegau ac ymchwil: datganiad ar wasanaethau i gwsmeriaid a chwynion

Mae'n sôn am ein bwriad i ddarparu gwasanaeth ar lefel uchel iawn i bob un o'n cwsmeriaid.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Mehefin 2015

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Tachwedd 2022

# Cynnwys

**Gwasanaeth i gyflenwyr data** (#section-52286)

**Gwasanaeth i ddefnyddwyr** (#section-52288)

**Safonau gwasanaeth** (#section-52290)

**Cyswllt** (#section-52292)

Yn fwy penodol, ein nod yw bodloni'r safonau canlynol o ran gwasanaethau i gwsmeriaid. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r gofynion a bennwyd yng **Cod Ymarfer ar gyfer ystadegau** (https://code.statisticsauthority.gov.uk/).

## Gwasanaeth i gyflenwyr data

Ein nod fydd creu cyn lleied o faich ag sy'n bosibl i'r rhai sy'n darparu data, trwy integreiddio ein gwaith ar ystadegau ac ymchwil ledled y llywodraeth pan fo'n bosibl. Byddwn yn ofalus iawn o'r wybodaeth a ddarperir i ni a byddwn yn parchu cyfrinachedd unrhyw wybodaeth sy'n datgelu ffeithiau personol yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a'n daganiad ategol ninnau, y **Datganiad ar gyfrinachedd a gweld data** (https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil-datganiad-ar-gyfrinachedd-gweld-data).

## Gwasanaeth i ddefnyddwyr

Byddwn yn ystyried anghenion ein holl ddefnyddwyr wrth gynllunio'n gweithgareddau ystadegol fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i ddefnyddwyr, a lle bo'n bosibl byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparwn o fewn cyrraedd pawb yn y gymuned.

Rydym yn croesawu sylwadau cadarnhaol mewn perthynas â phob dim a wneir gennym oherwydd byddant yn ein helpu i wella'n gwasanaeth.

Mae ein dull o ymgynghori â defnyddwyr a rhoi gwybodaeth iddynt wedi'i nodi yn ein strategaeth ymgysylltu â defnyddwyr.

## Safonau gwasanaeth

Rydym bob amser yn gwerthfawrogi ymholiadau ac adborth gan gwsmeriaid. Byddwn yn ymateb yn brydlon ac yn broffesiynol, byddwn ar gael i drafod ac yn barod ein cymorth a byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol, yn gywir ac yn gyfredol.

Byddwn yn ymateb i'ch ymholiad o fewn 20 diwrnod gwaith, yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gwyddom fod angen, yn aml, i wybodaeth ystadegol fod ar gael yn gyflym, er enghraifft i gyfrannu at benderfyniadau, cyfarfodydd neu areithiau cyhoeddus. Felly, byddwn yn ceisio bodloni unrhyw alw am ymateb cyflym, lle bo hynny'n ymarferol a phan ellir cytuno ar ddyddiad cau sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

Os dymunwch, byddwn yn darparu ymateb llafar neu ysgrifenedig yn Gymraeg.

Nodiri enw a chyfeiriad e-bost rhywun y gallwch gysylltu â nhw ar bob e-bost, llythyr a phopeth arall a gyhoeddir gennym.

Byddwn yn **glynu wrth god ymarfer y Llywodraeth Cymru ar gwynion** (https://llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru). Ein nod yw trin pob cwyn yn gwrtais a deallgar a byddwn yn cysylltu â chi i ddweud beth sy'n digwydd. Os byddwn yn teimlo bod angen mwy nag esboniad syml neu ymddiheuriad, byddwn yn cydnabod y gŵyn ac yn ceisio darparu ateb llawn o fewn 15 diwrnod gwaith.

# Cyswllt

## Ystadegau

Os oes gennych gŵyn, cysylltwch â:

Tîm Polisi Ystadegol a Safonau
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddiad
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **desg.ystadegau@llyw.cymru** (mailto:desg.ystadegau@llyw.cymru)

Bydd y Prif Ystadegydd yn cael gwybod am yr holl gwynion am ein hystadegau.

## Ymchwil

Os oes gennych chi gŵyn am unrhyw beth sy'n ymwneud â'n gwaith maes neu ein hallbynnau ymchwil, cysylltwch â:

Cymorth Fframwaith Sicrhau Ansawdd Ymchwil Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
Cf10 3NQ

E-bost: **cyngor.ymchwil@llyw.cymru** (mailto:cyngor.ymchwil@llyw.cymru)

Bydd y Prif Ymchwilydd Cymdeithasol yn cael gwybod am yr holl gwynion am waith maes neu allbynnau ymchwil.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.